GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio dethol i fabanod newydd-anedig rhag hepatitis B

Bydd yr amserlen imiwneiddio reolaidd i blant yng Nghymru yn newid yn 2025 a 2026.
Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y rhaglen frechu newyddenedigol ddethol ar gyfer babanod a aned i famau â hepatitis B (HepB). Am ragor o wybodaeth, ewch i:

**icc.gig.cymru/brechlynnau/ccs-gweithwyr-iechyd-proffesiynol**

## Sut mae'r newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant yn effeithio ar y rhaglen imiwneiddio dethol i fabanod newydd-anedig rhag hepatitis B

### 1. O 1 Gorffennaf 2025:

- Ni fydd Menitorix© (Hib/MenC) yn cael ei roi mwyach pan fydd y plentyn yn 12 mis oed.
- **Ni ddylid cynnig brechlyn HepB unfalent** i fabanod cymwys sy'n 12 mis oed ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2025 pan fyddant yn mynd i'w hapwyntiadau brechu 12 mis (*gweler isod o 1 Ionawr 2026*).

### 2. O 1 Ionawr 2026:

- Ar gyfer babanod sy'n 12 mis oed ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2025, rhoddir **dos ychwanegol o frechlyn chwefalent DTaP/IPV/Hib/HepB (6-mewn-1)** yn ystod **apwyntiad newydd pan fydd y plentyn yn 18 mis oed.**
- O roi'r brechlyn 6-mewn-1 ychwanegol hwn yn 18 mis oed, **ni fydd angen rhoi dos HepB unfalent 12 mis mwyach.**
- **Gellir cynnal profion** antigen arwyneb HepB **(HBsAg) ar unrhyw adeg rhwng 12 a 18 mis.** Er enghraifft, wrth i gyfle godi mewn apwyntiad iechyd ad hoc neu yn ystod apwyntiad arferol. Mae'r gofyniad i gofnodi canlyniadau prawf gwaed y baban am antigen arwyneb HepB yn ei gofnod gofal sylfaenol yn parhau heb ei newid.
- Mae'r apwyntiad ar gyfer dos brechlyn 6-mewn-1 18 mis yn rhoi cyfle i gadarnhau bod sampl gwaed ar gyfer antigen arwyneb HepB (HBsAg) wedi'i gasglu a bod y canlyniad wedi'i adolygu. Os na fydd hyn wedi digwydd, dylid gwneud trefniadau i'w gael.

### Tabl i ddangos cymhwysedd ar gyfer brechlyn newyddenedigol dethol rhag hepatitis B

| Rhaglen imiwneiddio dethol i fabanod newydd-anedig rhag hepatitis B ar gyfer Cymru o fis Gorffennaf 2025: **Oedran** | **Babanod cymwys sy'n 12 mis oed ar neu cyn 30 Mehefin 2025 (Dyddiad geni ar neu cyn 30.06.2024)** | **Babanod cymwys sy'n 12 mis oed ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2025 (Dyddiad geni ar neu ar ôl 01.07.2024)** |
|---|---|---|
| **Adeg Geni** | ✓ HepB Unfalent | ✓ HepB Unfalent |
| **4 wythnos oed** | ✓ HepB Unfalent | ✓ HepB Unfalent |
| **8 wythnos oed** | ✓ 6-mewn-1 | ✓ 6-mewn-1 |
| **12 wythnos oed** | ✓ 6-mewn-1 | ✓ 6-mewn-1 |
| **16 wythnos oed** | ✓ 6-mewn-1 | ✓ 6-mewn-1 |
| **12 mis oed** | ✓ HepB Unfalent<br>✓ Prawf am HBsAg | **X** Dim HepB Unfalent<br>✓ Prawf am HBsAg i'w gynnal unrhyw bryd rhwng 12 a 18 mis oed |
| **Newyddanedig - 18 mis oed** | **X** | ✓ 6-mewn-1 |

Fersiwn 1 | Mehefin 2025
Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
ISBN: 978-1-83766-609-6

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

Am ragor o wybodaeth am y newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio dethol i fabanod newydd-anedig rhag hepatitis B, ewch i:

[https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/adnoddau-brechlyn-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-proffesiynol/hepatitis-b-hepb/](https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/adnoddau-brechlyn-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-proffesiynol/hepatitis-b-hepb/)

**Llyfr Gwyrdd ar Imiwneiddio Pennod 18 Hepatitis B** (safle allanol, Saesneg yn unig)

## Gwyliadwriaeth

**Mae tua 20 – 30 o fabanod wedi cael eu geni i famau sydd wedi profi'n bositif am hepatitis B yng Nghymru fesul blwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.**

**Ar gyfer babanod a aned i famau sydd wedi profi'n bositif am hepatitis B yn 2023, roedd nifer y rhai a gafodd:**

- **Y dos cyntaf** o imiwneiddio rhag hepatitis B adeg genedigaeth yn **96%** yn 2023 ac roedd **100%** o'r babanod newydd-anedig wedi derbyn eu dos cyntaf yn brydlon (yn ystod diwrnod eu genedigaeth neu'r diwrnod canlynol).
- **Yr ail ddos** o imiwneiddio rhag hepatitis B ar ôl 4 wythnos yn **96%** yn 2023, ac roedd **67%** o'r babanod wedi derbyn eu hail ddos rhwng 25 a 36 diwrnod ar ôl iddynt gael eu dos cyntaf.
- **Y trydydd dos** o imiwneiddio rhag hepatitis B yn 8 wythnos oed yn **96%**, ac roedd **59%** o'r babanod a dderbyniodd eu trydydd dos rhwng 25 a 36 diwrnod ar ôl eu hail ddos.

**Ar gyfer babanod a aned i famau a oedd wedi'u profi'n bositif am hepatitis B yn 2022:**

- Cafodd **88%** ohonynt eu **pedwerydd** imiwneiddiad rhag hepatitis B yr oeddent i fod i'w gael ar ôl cyrraedd 12 mis oed. Derbyniodd **48%** o'r babanod eu pedwerydd dos rhwng 334 a 396 diwrnod ar ôl cael eu geni.
- Cafodd **58%** eu **profi**'n serolegol am antigen arwyneb hepatitis B erbyn iddynt gyrraedd 18 mis oed. Canfuwyd nad oedd yr un o'r babanod a brofwyd wedi cael haint hepatitis B.

Mae modd cael mynediad at yr adroddiad yn: **Imiwneiddio Rhag Hepatitis B Newyddenedigol - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

I ddarllen datganiad y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) ar newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant (Tachwedd 2022), gweler:
**Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) ar newidiadau i'r amserlen imiwneiddio plant - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)

I ddarllen Cylchlythyr Iechyd Cymru – Newidiadau i'r amserlen frechu rheolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddethol rhag hepatitis B o 1 Gorffennaf 2025 (WHC/2025/019), gweler:
**Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B (WHC/2025/019) | LLYW.CYMRU** (safle allanol)

Sganiwch fi i fynd i Wefan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Fersiwn 1 | Mehefin 2025
Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
ISBN: 978-1-83766-609-6